# Ni ddylai neb fod heb neb

## taclo unigrwydd ac arwahanrwydd yng Nghymru

age Cymru
Creu Cymru oed gyfeillgar

**Mae unigrwydd ac arwahanrwydd yn realiti beunyddiol i lawer o bobl hŷn; mae 75,000 o bobl hŷn yng Nghymru wedi dweud eu bod yn teimlo'n unig 'drwy'r amser neu'n aml'.**

Mae teimlo'n unig yn cael llawer o effeithiau niweidiol ar bobl hŷn, a cheir tystiolaeth gynyddol o'r effeithiau negyddol ar iechyd corfforol a meddyliol. Ceir tystiolaeth gref y gall unigrwydd gynyddu'r pwysau ar ystod eang o wasanaethau awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd. Yn yr un modd, gellir cymryd camau ymarferol i fynd i'r afael â'r mater.

Mae diffyg trafnidiaeth, amgylchedd adeiledig anhygyrch, diffyg amwynderau a chyfleusterau lleol ac allgáu digidol yn gallu achosi arwahanrwydd a theimladau o unigrwydd. Byddai cael gwared ar y rhwystrau hyn er mwyn creu Cymru sy'n gyfeillgar i oedran yn gwella cyfleoedd i bobl hŷn ddilyn eu diddordebau, ymuno mewn gweithgareddau a chwarae rôl yn eu cymunedau.

**Mae pobl hŷn yng Nghymru wedi dweud wrthym sut y byddent yn dymuno lleddfu unigrwydd mewn cymunedau lleol.**

- 70 y cant yn argymell clybiau cinio a chlybiau cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn.
- 70 y cant yn argymell trafnidiaeth am ddim neu â chymhorthdal ar gyfer mynychu digwyddiadau cymdeithasol.
- 70 y cant yn argymell ymweliadau rheolaidd gan berson cyfeillgar.
- 58 y cant yn argymell galwad ffôn wythnosol.

***"Rydych eisiau teimlo eich bod yn cael eich gwerthfawrogi – mae pawb ohonom eisiau teimlo ein bod yn cael ein gwerthfawrogi ... ac mae gennym lawer i'w gynnig, beth bynnag yw ein hoedran."***

Tŷ John Pathy, 13/14 Cwrt Neptune,
Ffordd Blaen y Gad, Caerdydd CF24 5PJ
Ffôn: 029 2043 1555
**www.agecymru.org.uk**
**Dilynwch ni ar**
facebook.com/agecymru
twitter.com/agecymru

Mae Age Cymru yn elusen gofrestredig 1128436. Cwmni cyfyngedig trwy warant ac wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr 6837284. Swyddfa gofrestredig fel yr uchod. ©Age Cymru 2017

**Mae Age Cymru'n credu y dylai unigrwydd gael ei gydnabod a'i drin fel blaenoriaeth iechyd cyhoeddus. Rydym yn cynnig y dylai awdurdodau lleol gymryd y camau canlynol.**

- Creu amgylcheddau adeiledig diogel, hygyrch sydd â mannau cyfarfod sy'n hawdd eu cyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus a chymunedol leol integredig.
- Cynnwys pobl hŷn wrth ddatblygu datrysiadau ar gyfer arwahanrwydd.
- Gweithio gyda sefydliadau tai, trafnidiaeth, iechyd, gofal a'r sector gwirfoddol a meddygon teulu i ddarparu cymorth ymarferol ac emosiynol er mwyn mynd i'r afael ag unigrwydd.
- Darparu gwasanaethau sy'n atal neu'n rheoli unigrwydd ac arwahanrwydd yn ystod cyfnodau mewn bywyd pan fydd unigrwydd yn debygol o gynyddu, megis profedigaeth, gorfod rhoi'r gorau i yrru, neu symud i gartref newydd neu ofal preswyl.
- Cytuno ar gamau gweithredu lleol penodol i leihau unigrwydd a monitro a gwerthuso eu heffaith.

# Olwen

**Mae Olwen yn 86 mlwydd oed, yn sengl ac nid oes ganddi blant. Hyd yn ddiweddar, roedd yn cerdded ei chi bob diwrnod ac roedd yn mwynhau dal y bws i'r ganolfan siopa leol, y llyfrgell a'r caffi.**

Mae Olwen yn dioddef o arthritis, sy'n gallu cyfyngu ar ei symudedd. Mae toriadau i wasanaethau bws lleol yn golygu nad yw'r bws yn teithio ar hyd ei stryd bellach a nawr mae'n rhaid iddi gerdded ymhellach i safle bws. Ers iddi gwympo ger ei chartref, mae wedi dechrau gofidio am fynd allan ac mae gofal personol yn achosi trafferthion cynyddol iddi. Mae dyfodiad misoedd y gaeaf wedi gwneud pethau'n waeth gan fod palmentydd yn wlyb a rhewllyd. Mae Olwen yn pryderu y gallai cwymp arall arwain at ymweliad i ysbyty neu symud i gartref gofal ac mae'n fwyfwy ynysig yn ei chartref ei hun.

*"Weithiau, mae gwisgo'n ormod o drafferth. Weithiau rwy'n codi yn fy mhyjamas ac nid wyf yn newid fy nillad."*

*"Rydych yn wyliadwrus rhag ofn i chi gwympo oherwydd ni fydd unrhyw un yno i'ch codi."*

**Beth gall yr awdurdod lleol ei wneud?**

**Sicrhau** amgylchedd hygyrch a chynhwysol sy'n galluogi pobl hŷn i gymryd rhan weithgar yn eu cymunedau.

- Blaenoriaethu cymdogaethau diogel, cerddadwy gyda phalmentydd sydd wedi'u cynnal a'u cadw'n dda a goleuadau stryd da.
- Darparu seddau cyhoeddus ar hyd llwybrau cerdded ac mewn mannau cymunedol.
- Sicrhau bod croesfannau i gerddwyr yn rhoi digon o amser i groesi ffyrdd yn ddiogel.
- Darparu digon o doiledau cyhoeddus glân a hygyrch.

**Darparu** gwasanaethau trafnidiaeth cyhoeddus a chymunedol hanfodol er mwyn helpu cadw pobl hŷn yn annibynnol, cysylltu cymunedau a sicrhau bod pobl hŷn yn gallu cyrraedd y cyfleusterau ac amwynderau sydd eu hangen arnynt i fyw bywydau boddhaus.

**Gweithio** gydag unigolion a grwpiau sydd â chysylltiadau cymunedol cryf, megis trinwyr gwallt, siopwyr a grwpiau ffydd er mwyn nodi pobl sy'n dioddef, neu mewn perygl o ddioddef, o unigrwydd, a'u cysylltu â mathau priodol o gefnogaeth.

**Darparu** mynediad i ddosbarthiadau cryfder a chydbwysedd ar gyfer pobl sydd wedi cwympo neu sydd mewn perygl o gwympo.

# Bill

**Mae Bill, sy'n siarad Cymraeg, yn 82 mlwydd oed ac yn byw mewn dinas. Cafodd Bill brofedigaeth yn ddiweddar ac mae ei deulu'n byw yn rhy bell i ffwrdd i ymweld yn rheolaidd.**

Mae Bill yn aelod gweithgar o'i Fforwm 50+ lleol ac mae'n mynychu cwrs addysg oedolion yn y gymuned wythnosol i wella ei sgiliau cyfrifiadurol. Er gwaethaf ei holl weithgareddau dyddiol, pan fydd Bill yn mynd adref a chau'r drws bob nos, mae'n teimlo'n unig. Nid yw eisiau siarad â'i deulu am ei deimladau oherwydd nid yw eisiau ychwanegu rhagor o bwysau i'w bywydau sydd eisoes yn brysur. Mae awdurdod lleol Bill yn ystyried dileu cyllid ar gyfer ei ddosbarth addysg oedolion a'r Fforwm 50+. Hefyd, mae wedi gweld llyfrgelloedd lleol yn cau.

### Beth gall yr awdurdod lleol ei wneud?

**Darparu** cyfleoedd hanfodol i bobl hŷn gymryd rhan yn eu cymuned leol a'r gymdeithas ehangach, er enghraifft drwy ddysgu, gweithgareddau cymdeithasol, gwaith â thâl neu wirfoddoli.

**Cefnogi** pobl hŷn a grwpiau cymunedol i ddatblygu a darparu datrysiadau lleol i leddfu unigrwydd ac arwahanrwydd.

**Gweithio** gyda chymunedau ar draws y cenedlaethau er mwyn meithrin strwythurau anffurfiol sy'n galluogi pobl i gymryd rhan mewn cymdeithas ar eu telerau eu hunain.

**Cynyddu** argaeledd cyfleusterau a gweithgareddau mewn cymunedau drwy weithio mewn partneriaeth.

**Darparu** gwasanaethau llyfrgell cyhoeddus digonol a pharhau i sicrhau bod llyfrgelloedd yn cefnogi cynhwysiant digidol.

*"Roeddwn yn mynd adref i dŷ gwag, heb unrhyw ysbryd, heb unrhyw awyrgylch, dim ond cerdded i mewn i dŷ marw."*

*"Rwy'n eistedd yn y tŷ gyda'r llenni ar gau yn hytrach na mynd allan a chwrdd â phobl."*

# Amra

**Mae Amra yn 76 mlwydd oed ac mae'n byw yn ne-ddwyrain Cymru. Cafodd ei geni yn Pacistan a symudodd i Gymru pan oedd yn ei hugeiniau.**

Mae plant Amra yn oedolion ac maent wedi symud i ffwrdd o'r ardal. Er mai hi yw prif ofalwr ei gŵr a gafodd strôc yn ddiweddar, nid yw Amra'n gwybod unrhyw beth am ei hawliau fel gofalwr. Mae diffyg ymwybyddiaeth Amra o'i hawl i fudd-daliadau a chymorth sydd ar gael gan y gwasanaethau cymdeithasol yn golygu ei bod yn brwydro i ymdopi'n ariannol ac mae'n teimlo'n fwyfwy ynysig yn gymdeithasol. Gan fod dealltwriaeth Amra o'r iaith Saesneg yn gyfyngedig, mae hi'n brin o hyder ac nid yw'n gwybod ble i fynd am gyngor.

### Beth gall yr awdurdod lleol ei wneud?

**Gweithio** mewn partneriaeth i sicrhau y bydd gwybodaeth a chyngor ar gael mewn amrywiaeth o fformatau ac ieithoedd ac mewn lleoliadau lle mae pobl hŷn yn byw eu bywydau beunyddiol.

**Sicrhau** bod gan bob person hŷn ledled Cymru fynediad i wasanaeth eiriolaeth annibynnol am ddim pe byddent eisiau ei ddefnyddio.

**Sicrhau** bod asesiadau gofalwyr ar gael i bob gofalwr a'u bod yn cael eu dilyn gan wasanaethau a chymorth priodol.

**Comisiynu** gwasanaethau gofal sy'n canolbwyntio ar y person sy'n cefnogi unigolion i gadw eu hannibyniaeth a'u hurddas.